| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Tachwedd 6ed 2012** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd Barbara Smith / Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones - Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Swyddogaeth Pencampwyr** |

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Gofynnir i'r Cyngor Llawn ystyried penodi Aelodau yn ystod y tymor yma yn y swydd, i weithredu fel Pencampwyr yn y meysydd canlynol:

- Pencampwr Pobl Hŷn
- Pencampwr Digartrefedd
- Pencampwr Gofalwyr
- Pencampwr Anabledd Dysgu

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

Mae'r adroddiad i ystyried y disgrifiadau swydd drafft a phenodiad y Pencampwyr a nodwyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac i drafod y broses o nodi swyddogaethau Pencampwyr eraill a allai fod yn addas i'w mabwysiadu gan y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn ystyried gwneud y penodiadau canlynol: -

(1) Pencampwr Pobl Hŷn
(2) Pencampwr Digartrefedd
(3) Pencampwr Gofalwyr
(4) Pencampwr Anabledd Dysgu

3.2 Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r disgrifiadau swydd sydd wedi eu mynegi yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn o ran y Pencampwyr sy'n cael eu penodi.

3.3 Gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ystyried a oes yna rinwedd mewn penodi Pencampwyr ar gyfer diddordebau eraill.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae swyddogaeth Pencampwyr wedi esblygu yn yr awdurdod hwn o benodiad 'Pencampwr Pobl Hŷn' a ddeilliodd o'r cyfarwyddyd yn y Strategaeth Pobl Hŷn gan y Cynulliad Cymreig y dylai fod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru Bencampwr felly.

Ers hynny mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cynyddu'r ystod o Bencampwyr mewn meysydd eraill, weithiau o ganlyniad i gyfarwyddyd Aelodau, neu fentrau allanol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn awr, yn ei adolygiad diweddar o'i Gyfansoddiad, ym mharagraff 2.6 Erthygl 2, yn cydnabod yn ffurfiol bwysigrwydd swyddogaeth Pencampwr mewn meysydd penodedig, felly'n plannu'r swyddogaeth o fewn y Cyfansoddiad.

Nid yw'r dull o benodi unrhyw Bencampwr wedi ei ddeddfu, a phenderfyniad pob awdurdod lleol unigol fydd pa ddull yw'r gorau i gyflawni hyn yn lleol. Wrth benodi'r Pencampwr Pobl Hŷn mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datgan fod 'llawer yn ei hystyried yn bwysig fod y Pencampwr yn seiliedig ar lefel y cabinet, lle bydd awdurdodau lleol yn ystyried hynny'n briodol, i sicrhau fod materion pobl hŷn yn cael eu nodi ar y lefel uchaf. Fodd bynnag, nid felly y bydd hi bob tro ac mae sawl awdurdod lleol wedi mabwysiadu dulliau gwahanol pan fydd hynny fwy addas ar gyfer angen lleol.'

Yn hanesyddol, dull Cyngor Sir Ddinbych oedd sicrhau penodi'r aelod mwyaf priodol i swyddogaeth y pencampwr unigol. Mewn trafodaethau blaenorol ar Bencampwyr, bu aelodau'n awyddus i weld disgrifiad swydd eglur ar gyfer Pencampwr a hwnnw'n cael ei gytuno a'i fabwysiadu a'i fod yn mynegi sut yn union y gellir ymgymryd â'r swyddogaeth yn yr awdurdod arbennig yma. Mae disgrifiadau swydd drafft ar gyfer y swyddogaethau a nodir yn y Cyfansoddiad wedi eu mynegi yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn ac maen nhw'n ceisio eglurder a chysondeb ynglŷn â swyddogaeth Pencampwr yn Sir Ddinbych.

Yn ystod dadl y Cyngor Llawn ar fater Pencampwyr yn ei gyfarfod yn Ebrill 2012 i fabwysiadu'r Cyfansoddiad newydd, roedd rhai Aelodau'n cefnogi'r awgrym o ymestyn ystod y swyddogaethau hyn i Bencampwr Pobl Ifanc, o ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol a'r sialensiau sy'n wynebu ieuenctid heddiw. Yn ogystal, wrth ystyried Cyfamod y Lluoedd Arfog, cafwyd trafodaeth ynglŷn â dymunoldeb penodi Pencampwr Lluoedd Arfog. Awgrymwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn edrych yn fanwl ar ddymunoldeb penodi Pencampwyr o ran diddordebau eraill a rhoi argymhellion i'r Cyngor.

**5. Sut mae'r penderfyniad yma'n cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r swyddogaethau'n cyfrannu tuag at Gynllun Mawr y Cyngor a Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Sir Ddinbych 2025.

**6. Beth fydd o'n ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes yna unrhyw oblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad yma.

**7. Pa ymgynghoriadau a gafwyd?**

Fe ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grwpiau ac roedden nhw o blaid penodi'r pedwar Pencampwr a nodwyd yn yr argymhellion sydd yn yr adroddiad yma ac i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol edrych yn fanwl ar briodoldeb penodi Pencampwyr ar gyfer diddordebau eraill.

Fe ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mae wedi mynegi pryder fod yna bosibilrwydd o ddryswch a/neu ddyblygu rhwng swyddogaethau Pencampwyr ac Aelodau Arweiniol pan fydd y mater sydd i'w bleidio'n dod o fewn cylch gwaith Aelod Arweiniol unigol.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes yna unrhyw gostau ychwanegol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r penodiadau.

**9. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes yna unrhyw risgiau a nodwyd ynglŷn â bwrw ymlaen â'r penodiadau.

**10. Grym i wneud y penderfyniad**

Erthygl 2.6 Cyfansoddiad y Cyngor